**Manyleb**

# Rheoliad y cyngor (CE) Rhif 1151/2012 ar ddynodiadau daearyddol gwarchodedig (PGI) ac enwau tarddiad gwarchodedig (PDO)

# “West Wales Coracle Caught Sewin” / “Sewiniaid Gorllewin Cymru Wedi’u Dal o Gwrwgl”

Rhif CE:

PDO () PGI ( ✔ )

## 1. Yr aran gyfrifol yn yr aelod-wladwriaeth y Deyrnas Unedig

**Enw**: Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

**Cyfeiriad:** Food Composition and Standards team – Food and Policy unit

Area 7E
9 Millbank
Nobel House
C/o 17 Smith Square
London
SW1P 3JR
United Kingdom

**Rhif ffôn:** +44207 238 6075

**Rhif ffacs:** +44207 238 5728

**Cyfeiriad ebost**: protectedfoodnames@defra.gov.uk

## 2. Grŵp

Enw: Cymdeithas Cwryglau a Rhwydwyr Caerfyrddin

Cyfeiriad: Swyddfeydd y Llawr 1af,

9 Elliston Terrace

Caerfyrddin

SA31 1HA

Rhif ffôn: 07792 018 168

Cyfeiriad e-bost: Kirsty@cnwd.co.uk

Cyfansoddiad: Cynhyrchwyr/prosesyddion (1) Arall (16)

16 o Gychod Pysgota

## 3. Math o gynnyrch

Dosbarth – Grŵp 1.7: Pysgod, molysgiaid a chramenogion ffres a chynhyrchion sy'n deillio ohonynt.

## 4. Manyleb

### 4.1 Enw:

"Sewiniaid Gorllewin Cymru Wedi'u Dal o Gwrwgl"

### 4.2 Disgrifiad:

"Sewiniaid Gorllewin Cymru Wedi'u Dal o Gwrwgl" yw'r enw a roddir ar bysgod sy'n perthyn i'r rhywogaeth Salmo trutta a gaiff eu dal trwy ddefnyddio'r dull traddodiadol Cymreig a hynafol o bysgota o gwrwgl.

Mae "Sewiniaid Gorllewin Cymru Wedi'u Dal o Gwrwgl" ffres yn arian llachar a cheir nifer o smotiau duon uwchlaw ac islaw'r llinell ystlysol. Mae cnawd y sewiniaid yn gadarn, ceir ffyrfder da i'r cyhyrau, ac mae arogl pysgod ffres arnynt.

Lliw pinc golau sydd i'r cnawd, er y gall y lliw amrywio rhywfaint, oherwydd dim ond tra byddant yn y môr y bydd sewiniaid yn bwydo a bydd eu deiet, a all gynnwys berdys codog a berdys, yn effeithio ar liw eu cnawd.

Mae "Sewiniaid Gorllewin Cymru Wedi'u Dal o Gwrwgl" yn unigryw oherwydd cânt eu dal yn nyfroedd isel a llanwol yr afon cyn gynted ag y byddant yn gadael y môr ac yn cyrraedd systemau'r afon. Arwydd o'u "ffresni" yw'r ffaith fod perfedd sewiniaid sydd wedi'u dal o gwrwgl yn aml yn dal i gynnwys rhannau o'u deiet môr, fel llymrïaid.

Mae'r pysgod yn ffres, ac mae'r ffaith fod eu cyhyrau'n fwy datblygedig na'r rhelyw yn arwain at gnawd cadarn a chanddo ansawdd clòs.

Mae ganddynt siâp athletaidd hirfain, heb ormod o ddyddodion brasterog, ac mae hyn yn deillio o'u cyfnod maith yn nofio tra byddant yn y môr a hefyd o ansawdd uchel y safleoedd bwydo sydd ar gael iddynt tra byddant yn y môr.

Gall siâp a maint cyffredinol "Sewiniaid Gorllewin Cymru Wedi'u Dal o Gwrwgl" amrywio oherwydd eu natur wyllt. Yn ychwanegol at eu natur wyllt, nid yw'r sewiniaid yn cynnwys unrhyw ychwanegion neu liwiau artiffisial.

Gall maint y pysgod amrywio oherwydd eu natur wyllt. Fodd bynnag, oherwydd maint cyfyngedig y rhwyllau yn y rhwydi, sef 10cm, bydd maint "Sewiniaid Gorllewin Cymru Wedi'u Dal o Gwrwgl" yn amrywio o 1kg ar eu lleiaf (oherwydd bydd unrhyw bysgod llai yn dianc trwy'r rhwyd) i 10kg ar eu mwyaf.

Mae gan "Sewiniaid Gorllewin Cymru Wedi'u Dal o Gwrwgl" farciau perffaith (arian llachar gyda smotiau niferus), ac maent yn eithaf crwn a phraff. Ni ddylai eu cynffonau, eu hesgyll na'u pennau fod wedi'u hanffurfio. Fel arfer, mae fforch eu cynffonau'n sgwâr neu'n amgrwm.

Mae arddwrn y gynffon yn llydan ac mae hi'n anodd codi'r pysgodyn trwy afael yn y gynffon yn unig, ac mae'r gorfant yn ymestyn y tu hwnt i ymyl ôl y llygad.

Gan mai pysgod unigol, yn hytrach na phentyrrau o bysgod, a ddelir trwy bysgota o gwrwgl, nid yw "Sewiniaid Gorllewin Cymru Wedi'u Dal o Gwrwgl" yn dueddol i ddioddef cleisiau, niwed i'r cnawd nac anffurfiadau eraill a all ddigwydd pan gânt eu ffermio neu eu dal gyda rhwydi drifft.

Mae hyn yn cyfrannu at ansawdd bwyta "Sewiniaid Gorllewin Cymru Wedi'u Dal o Gwrwgl", gyda'u cnawd cadarn dilychwin a'u hansawdd clòs.

Pan gânt eu coginio, mae gan "Sewiniaid Gorllewin Cymru Wedi'u Dal o Gwrwgl" flas "menynaidd" meddal, cynnil arbennig gydag arlliw o flas "cnau", ac mae ganddynt sawr meddal, glân a ffres unigryw.

Mae'r cnawd yn gadarn ac mae ganddo ansawdd clòs.

Ar y cyfan, caiff "Sewiniaid Gorllewin Cymru Wedi'u Dal o Gwrwgl" eu gwerthu'n gyfan, gan amlaf pan fônt newydd gael eu dal; er, gellir gwerthu'r Sewiniaid wedi'u rhewi.

### 4.3 Ardal ddaearyddol

Mae'r ardaloedd o fewn Afon Tywi, Afon Taf ac Afon Teifi yng Ngorllewin Cymru lle caniateir pysgota cwrwgl fel y nodir gan y gorchmynion cyfyngu ar rwydi cwrwgl ar gyfer pob un o'r tair afon fel a ganlyn: -

Afon Tywi: - Yn y rhan honno o'r afon sy'n gorwedd rhwng llinell ddychmygol a dynnir yn syth ar draws Afon Tywi o orsaf bwmpio'r rheilffordd ger yr hen waith tunplat ar Gyfeirnod Grid Cenedlaethol SN 420205 a'r llinell ddychmygol a dynnir yn syth ar draws Afon Tywi ar Gyfeirnod Grid Cenedlaethol SN 394137.

Afon Teifi: - Yn y rhan honno o'r afon sy'n gorwedd rhwng pont Aberteifi a phont Llechryd.

Afon Taf: - Yn y rhan honno o'r afon sy'n gorwedd rhwng y bont ffordd ar yr A477 rhwng Caerfyrddin-Penfro ac oddeutu 1.6km i lawr yr afon hyd at linell ddychmygol a dynnir yn syth ar draws Afon Taf rhwng trwyn Wharley a thrwyn Ginst.

### 4.4 Prawf tarddiad:

Ceir canllawiau llym yn ymwneud â ble'n union y gellir pysgota cwrwgl ar bob un o'r afonydd lle delir "Sewiniaid Gorllewin Cymru Wedi'u Dal o Gwrwgl." Yn ôl y canllawiau hyn, dim ond mewn ardaloedd llanwol penodol yn yr afonydd y caniateir pysgota cwrwgl.

Ymdrinnir â'r defnydd o rwydi cwrwgl gan ddeddfwriaeth sy'n:

- pennu faint o rwydi y gellir eu pysgota mewn ardal arbennig
- llywodraethu'r tymor cau a'r amseroedd cau wythnosol (ni chaniateir pysgota cwrwgl ar benwythnosau), ynghyd â'r math o offer pysgota y gellir eu defnyddio a maint y rhwyllau

Mae pob cwrwgl ar yr afon yn cael rhif, ac ar ddechrau'r tymor mae pob deiliad trwydded yn cael llyfr log a chyfres o dagiau sy'n cyfateb i'w gwrwgl.

Rhaid i bob deiliad trwydded lenwi'r llyfr log hwn bob diwrnod, a gellir olrhain pob dalfa gan fod pob pysgodyn yn cael ei dagio dan ganllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd.

Caiff tag plastig ag arno rif adnabod unigryw ei osod trwy asgell pob Sewin, ac mae'n orfodol i'r tag hwn gael ei osod yn asgell y pysgodyn cyn glanio.

Mae pob llyfr log yn cofnodi'r canlynol:

I) rhifau'r tagiau

II) dyddiad y ddalfa

III) maint/pwysau'r pysgod

Mae'r tagiau'n dangos rhif y pysgodyn a rhif y cwrwgl, felly gellir olrhain pob tag yn rhwydd at y cwrwgl a ddefnyddiwyd i ddal y pysgodyn.

Mae hyn yn sicrhau tryloywder ynghyd â'r gallu i olrhain y pysgod drwy gydol y broses. Mae'n anghyfreithlon cyflenwi "Sewiniaid Gorllewin Cymru Wedi'u Dal o Gwrwgl" heb iddynt gael eu tagio.

Bydd Swyddogion Gorfodi yn cynnal ymweliadau dirybudd yn rheolaidd i sicrhau bod deiliaid trwyddedau'n cadw cofnodion cyfredol ac i sicrhau bod y pysgod a gaiff eu dal yn cyfateb i'r cofnodion hyn.

Ar ddiwedd y tymor, bydd y llyfrau log a'r tagiau sydd ar ôl yn cael eu dychwelyd i Asiantaeth yr Amgylchedd (neu gorff gorfodi o'r fath). Bydd llyfrau log a thagiau newydd yn cael eu rhoi y tymor canlynol.

**4.5 Dull cynhyrchu:**

Caiff "Sewiniaid Gorllewin Cymru Wedi'u Dal o Gwrwgl" eu dal gan bysgotwyr cwrwgl yn ystod y tymor Sewiniaid, sy'n amrywio'n ôl yr afon lle caiff y pysgod eu dal.

Mae'r tymor pysgota cwrwgl ar gyfer Sewiniaid yn amrywio'n ôl yr afon.

- ar afon tywi, mae'r tymor yn ymestyn o 1 mawrth hyd at 31 gorffennaf
- ar afon teifi, mae'r tymor yn ymestyn o 1 ebrill hyd at 31 awst
- ar afon taf, mae'r tymor yn ymestyn o 1 mawrth hyd at 31 gorffennaf

**Cwryglau**

Cychod bach siâp hirgrwn yw cwryglau, a cheir astell ar draws y canol i greu man eistedd. Cânt eu gwneud â llaw trwy ddefnyddio coed ynn a choed helyg, a chânt eu hadeiladu fel basgedi. Mae pob cwrwgl yn cludo un pysgotwr, a chaiff ei lywio gan un rhwyf.

Mae pysgota cwrwgl yn golygu defnyddio pâr o gwryglau, lle caiff rhwyd ei hongian rhwng y ddau gwrwgl.

Yn ystod y nos y caiff y dull pysgota hwn ei ddefnyddio'n bennaf, a hynny er mwyn rhwystro'r sewiniaid rhag gweld cysgod y cwrwgl neu'r rhwyd yn nesáu tuag atynt wrth iddynt ddychwelyd i'w silfa.

**Rhwydi**

Caiff y rhwydi eu gwneud â llaw mewn dull traddodiadol. Cânt eu gwneud yn arbennig trwy ddefnyddio llinyn lliain neu linyn cywarch. Fel yn achos y gwaith o wneud y cwryglau, mae'r sgìl a'r arbenigedd sydd ynghlwm wrth y gwaith o wneud y rhwydi wedi esblygu ers i neilon gael ei gyflwyno.

Crogrwyd unplyg yw'r rhwyd. Ni ddylai fod yn fwy na 12 metr o led ac mae ganddi agoriad o 45cm. Yn ôl y gyfraith, ni chaiff maint y rhwyllau mewn rhwyd cwrwgl fod yn llai na 10cm.

Ceir dau fath o rwyd, gan ddibynnu ar y tymor.

Yn y gwanwyn, mae maint y rhwyllau yn y rhwyd yn 15cm fel arfer, oherwydd yn gyffredinol mae'r pysgod yn fwy ac felly byddai unrhyw bysgod dan 1.8kg ar y pryd yn cael eu colli.

Yn nechrau'r haf caiff maint y rhwyllau ei newid i'r lleiafswm cyfreithlon. Mae hyn yn caniatáu i'r holl bysgod ifanc, neu bysgod 1kg nau lai, ddianc. Dengys hyn fod pysgota cwrwgl yn ddull pysgota cynaliadwy.

**Dull pysgota**

Caiff y rhwyd ei hymestyn rhwng y ddau gwrwgl – dyma'r math cynharaf o lusgrwydo y gwyddys amdano yn y diwydiant pysgota.

Mae'r Sewiniaid yn teithio i'w silfeydd ar hyd gwelyau'r afonydd, gan ddilyn trywydd yr afon. Mae'r cwryglwyr wedi cywain yr wybodaeth hon dros ganrifoedd o bysgota.

Dim ond mewn ardaloedd rhynglanwol penodol yn Afon Taf, Afon Tywi ac Afon Teifi y caniateir pysgota cwrwgl. Caiff y llinellau terfyn eu pennu gan yr is-ddeddfau pysgota. Caiff y rhwyd ei llusgo ar wely'r afon trwy ddefnyddio darnau bach o bwysau plwm.

Dim ond pysgod o fewn 18 modfedd o wely'r afon a gaiff eu dal gan y rhwyd. Bydd unrhyw bysgod uwchlaw'r dyfnder hwnnw yn dianc, oherwydd byddant yn nofio uwchben y rhwyd. Mae'r cyrcs ar y rhwyd yn helpu i gadw pen y rhwyd ar ffurf bwa a bydd y ddau gwrwgl yn cadw ceg y rhwyd ar agor.

**Camau Cynhyrchu**

I) caiff y sewiniaid eu dal trwy ddefnyddio rhwyd draddodiadol wedi'i gwneud â llaw. mae pysgota cwrwgl yn golygu defnyddio pâr o gwryglau, lle caiff rhwyd ei hongian rhwng y ddau gwrwgl.

II) caiff y sewiniaid eu tagio ar y cwrwgl trwy osod tag plastig trwy asgell pob sewin. rhoddir y tag yn asgell y pysgodyn cyn glanio. mae pob tag yn cyfateb i'r cwrwgl penodol a ddefnyddiwyd i ddal y pysgodyn.

III) caiff y sewiniaid eu cludo i'r lan yn y cwrwgl. yna, caiff y sewiniaid eu pwyso ar ôl cyrraedd y lan a chânt eu cofnodi yn y llyfr log a roddir i bob pysgotwr cwrwgl trwyddedig.

IV) caiff y sewiniaid eu cludo i storfa lle cânt eu rhoi mewn bocsys oer sy'n cynnwys rhew, neu eu storio mewn oergell ar dymheredd o 0ºc- 4ºc.

V) ar y cyfan caiff y pysgod eu gwerthu'n gyfan, gan amlaf pan fônt newydd eu dal, i fwytai a gwestai lleol, a hynny fel cynnych tymhorol lleol/rhanbarthol o'r radd flaenaf. hefyd, cânt eu gwerthu i gyfanwerthwyr a gwerthwyr pysgod lleol neu eu hanfon i safleoedd prosesu pysgod i'w cochi.

**4.6 Cysylltiad**

Mae'r cais PGI mewn perthynas â "Sewiniaid Gorllewin Cymru Wedi'u Dal o Gwrwgl" yn seiliedig ar y priodoleddau sy'n perthyn i gynnyrch o ansawdd unigryw y mae ei nodweddion penodol:

1) Yn gysylltiedig â'r ffaith fod y pysgod yn bysgod "gwyllt" a'r amser a dreuliant yn y môr ac ansawdd uchel y dŵr afon lle mae'r sewiniaid yn dechrau eu bywyd ac yn dychwelyd i fridio.
2) Yn gysylltiedig â'r dull traddodiadol unigryw o bysgota cwrwgl yng Nghymru, sef dull traddodiadol o bysgota sewiniaid a ganiateir yn Afon Taf, Afon Tywi ac Afon Teifi yng Ngorllewin Cymru yn unig.

Pysgod mudol yw sewiniaid, ac maent yn gallu byw mewn dŵr croyw (afonydd) a dyfroedd hallt (y môr). Mae sewiniaid yn silio mewn dŵr croyw ac yn byw eu blynyddoedd cyntaf yn yr afonydd.

Yn gynnar yn y gwanwyn bob blwyddyn, maent yn dychwelyd i'r môr i fwydo a thyfu. Ar ôl oddeutu dwy flynedd, byddant yn dychwelyd i'r afon y cawsant eu geni ynddi i ailddechrau'r cylch unwaith eto.

Bydd sewin benywaidd yn cynhyrchu 2000 o wyau fesul kilogram (900 o wyau fesul pwys) o bwysau ei chorff yn ystod y cyfnod silio. Yr unig adeg y bydd y pysgod yn dychwelyd i'r afon yw pan fyddant yn silio.

Bydd ffyrfder cyhyrau sewiniaid/brithyllod y môr gwyllt wedi datblygu mwy na ffyrfder cyhyrau brithyllod wedi'u ffermio, a hynny oherwydd y pellter mawr y bydd sewiniaid/brithyllod y môr gwyllt wedi'i deithio wrth fudo ac ansawdd uchel y safleoedd bwydo tra byddant yn y môr, lle caiff eu hegni wrth gefn ei ffurfio.

Mae eu cyhyrau mwy datblygedig yn arwain at ansawdd cadarnach, heb ormod o ddyddodion brasterog.

Caiff y nodweddion hyn eu diogelu gan y dull pysgota, sy'n sicrhau bod y pysgod yn cael eu dal yn nyfroedd isel a llanwol yr afon cyn gynted ag y byddant yn cyrraedd system yr afon, a chyn iddynt fynd yn fwy anweithgar (rhywbeth sy'n nodweddiadol ohonynt) a chyn i'w hegni wrth gefn gael ei ddihysbyddu yn amgylchedd yr afon.

Mae hyn yn cyfrannu at y blas "menynaidd" meddal, cynnil a'r arlliw o flas "cnau" sydd gan "Sewiniaid Gorllewin Cymru Wedi'u Dal o Gwrwgl", ynghyd â'u sawr ffres unigryw, eu cnawd cadarn a'u hansawdd clòs.

Mae dŵr Afon Taf, Afon Tywi ac Afon Teifi o ansawdd uchel iawn a chaiff ei fonitro a'i gofnodi'n rheolaidd gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Mae lefelau llygredd y tair afon yn isel iawn, ac maent wedi ennill statws “A”, sy’n arwydd bod gan yr afonydd *‘ecosystemau naturiol a’u bod yn bysgodfeydd da iawn i salmonidau a sypriniaid’*.

Mae’r tair afon yn tarddu’n ddwfn ym Mynyddoedd Cambria a Mynyddoedd y Preseli, ac mae gan y tair dalgylch gwledig lle ceir glaswelltiroedd a choed yn bennaf.

Mae Afon Tywi ac Afon Teifi wedi’u dynodi’n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA). Mae ansawdd uchel y dŵr yn yr afonydd yn cyfrannu at faint y sewiniaid a’r ffaith y dylai “Sewiniaid Gorllewin Cymru Wedi’u Dal o Gwrwgl” fod â marciau perffaith, heb i’w cynffonau, eu hesgyll na’u pennau fod wedi’u hanffurfio.

Mae pysgota cwrwgl yn ffordd hynafol o bysgota am bysgod mudol. Mae’n hen grefft ac yn hen sgìl a gofnodir yn yr unfed ganrif ar ddeg (ac yn gynharach), ac mae’n dal i fodoli yn yr unfed ganrif ar hugain.

Er yr arferid defnyddio cwryglau’n helaeth trwy Gymru i gyd, erbyn hyn cânt eu cyfyngu i dair Prif Afon – sef Afon Tywi, Afon Teifi ac Afon Taf, pob un ohonynt yng Ngorllewin Cymru. Caiff pysgota cwrwgl ei gyfyngu i’r tair afon hyn, ac mae’n arfer sydd wedi bodoli ers mwy na 300 mlynedd.

Mae pysgota cwrwgl yn ddiwydiant cartref yng Ngorllewin Cymru y gellir ei ddyddio i’r 1800au. Yn draddodiadol, caiff y cwryglau eu gwneud â llaw trwy ddefnyddio coed ynn a choed helyg, a chânt eu hadeiladu fel basgedi.

Er nad yw cynllun y cwrwgl na’r dull o’i adeiladu wedi newid ers canrifoedd, mae datblygiadau mewn deunyddiau modern erbyn hyn yn cynnwys defnyddio calico, canfas a ffeibr gwydr.

Ceir dau brif fath o gwrwgl ac mae’r rhain wedi’u saernïo’n benodol i weddu i nodweddion llanwol unigol y tair afon.

Cynllun llyfn sydd i Gwrwgl Afon Tywi (gan fod yr afon yn lletach a chan fod angen i’r cwrwgl fod yn llyfn er mwyn gallu croesi’r afon yn gyflymach). Mae cwrwgl Afon Teifi yn fwy sefydlog gan fod angen ei ddefnyddio i bysgota yn nyfroedd cyflymach a mwy garw Afon Teifi.

Ar brint yn Amgueddfa Caerfyrddin, sy'n dyddio i'r flwyddyn 1794, cyfeirir mewn cerdd at y modd y câi cwryglau Afon Tywi eu gwneud a'u gorchuddio:

*Llangunnor Hill*

*Upon the glittering stream below,*

*Those fishermen of courage bold,*

*In numerous pairs, pursue their trade*

*In coracles themselves have made;*

*Form'd of slight twigs with flannel cas'd*

*O'er which three coats of tar are plac'd*

*And as a porter bears his pack*

*Each mounts his vessel on his back.*

Yn hanesyddol, byddai cenedlaethau gwahanol o fewn yr un teulu'n dibynnu ar bysgota cwrwgl yn yr afonydd hyn i ennill eu bywoliaeth. Yn ychwanegol at y pysgotwyr cwrwgl a'r rhai a arferai wneud y cwryglau a'r rhwydi, ceid tyfwyr cywarch a llin a gwneuthurwyr rhaffau. Ar un adeg, byddai oddeutu 200 o gwryglau ar yr afonydd hyn.

Yn 1807, roedd cynifer o bysgotwyr cwrwgl i'w cael yng Nghenarth (pentref ar lannau Afon Teifi) sef peri i rywun o'r cyfnod ysgrifennu: 'Prin bod bwthyn yn y gymdogaeth heb gwrwgl yn hongian wrth ei ddrws.'

Yn ôl rhywun a fu'n dyst i'r Comisiwn Brenhinol yn 1861, câi'r pysgod a ddelid gan gwryglwyr Afon Tywi eu halltu a'u gwerthu ar ffurf pysgod wedi'u sychu yn y dref a'r wlad a'u hanfon ymaith. Arferent gael eu gwerthu ar strydoedd Caerfyrddin gan y pysgotwyr a'u gwragedd ac yn y wlad ar hyd glannau Afon Tywi.

'The Coracle' gan J. Geraint Jenkins

Yn 1939, cyfyngwyd ar niferoedd y trwyddedau rhwydi ar yr afonydd, a heddiw byddwch yn dal i weld aelodau o'r un teuluoedd yn pysgota'r afonydd am sewiniaid.

Ynghyd â'r gwaith o wneud cwryglau, mae'r sgìl a'r arbenigedd o wneud rhwydi hefyd wedi cael eu trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth. Yn hanesyddol, câi'r rhwydi eu gwneud o gywarch, ond erbyn y dyddiau hyn mae'r gwaith o wneud rhwydi wedi esblygu ar ôl i neilon gael ei gyflwyno.

Sgìl arall sy'n gysylltiedig â physgota cwrwgl a gwneud rhwydi yw'r system unigryw ar gyfer rhoi plwm ar rwydi – sef nifer y pwysau plwm ac ati a roddir yn sownd yn y rhwydi.

Mae'r system hon yn un gymhleth ac mae wedi'i seilio ar gyfres Fibonacci o rifau ym myd natur. (1 x 3 darn o blwm, 4 x 2 darn o blwm, 6 x 1 darn o blwm.) Ymarfer y sgìl hwn yw'r ffordd arferol o'i ddysgu, ac mae'n sgìl sydd wedi'i drosglwyddo o'r naill genhedlaeth i'r llall.

Mae pysgota cwrwgl yn golygu llywio'r cwrwgl yn dra-chywir, gan reoli lleoliad y rhwyd a sicrhau bod y cwrwgl yn nofio'n iawn ar y dŵr yr un pryd. Mae gwybod pa lecynnau llanwol i'w pysgota, ynghyd â'r gallu i "ddarllen" yr afon, yn hollbwysig a rhaid ystyried ffactorau fel llif yr afon, ei dyfnder (gan ddibynnu ar lif y dŵr), y llanw ac amodau'r gwynt.

Caiff sgìl y pysgotwyr cwrwgl ei amlygu gan y ffaith fod yr arfer o bysgota cwrwgl yn digwydd yn bennaf yn ystod y nos.

Bydd pysgota cwrwgl yn cychwyn gyda'r hwyr – y term a ddefnyddir i ddisgrifio hyn gan y pysgotwyr cwrwgl yw 'clyfwchwr'. Caiff yr arfer o bysgota cwrwgl ei wneud yn bennaf yn ystod y nos er mwyn rhwystro'r pysgod rhag gweld cysgod y cwrwgl neu'r rhwyd yn nesáu tuag atynt.

Mae gan y cwryglwyr ddywediad, sef – Ar noson ddigwmwl, cyn gynted ag y daw saith seren i'r golwg yn yr awyr, dyna'r adeg i gychwyn pysgota.

Mae "Sewiniaid Gorllewin Cymru Wedi'u Dal o Gwrwgl" yn gynnyrch o ansawdd a ddefnyddir gan lu o ben-cogyddion a gastronomyddion.

Mae'r pysgod yn ymddangos yn rheolaidd fel cynnyrch tymhorol ar fwydlenni sefydliadau lleol enwog, ac mae galw mawr amdanynt ymhlith trigolion yr ardal a thwristiaid. Yn aml, caiff "Sewiniaid Gorllewin Cymru Wedi'u Dal o Gwrwgl" eu cochi a'u gwerthu i neuaddau bwyd uchel eu bri yn Llundain, fel Harrods a Fortmun and Mason.

Andrew Luck – Pen-cogydd Lleol yn ardal Afon Tywi.

'Fel pen-cogydd, teimlad cyffrous i mi yw gweld dalfa gyntaf y Tymor o "Sewiniaid Gorllewin Cymru Wedi'u Dal o Gwrwgl" yn dod i'r lan ar gwryglau Gorllewin Cymru.

Mae "Sewiniaid Gorllewin Cymru Wedi'u Dal o Gwrwgl" yn bysgod gwych i ben-cogyddion eu defnyddio, nid yn unig oherwydd eu blas ffres unigryw a'u hansawdd clòs – ond oherwydd y stori, yr hanes a'r traddodiad sydd ynghlwm wrthyn nhw.

Mae'n bleser eu cael ar y fwydlen ac rydych yn gwybod yn union o ble maen nhw wedi dod.

Mae "Sewiniaid Gorllewin Cymru Wedi'u Dal o Gwrwgl" yn bysgod gwell na'r rhelyw, a phan gânt eu cochi neu eu coginio gallan nhw ddangos eu gwir amrywiaeth.'

**4.7 Corff arolygu:**

Enw: Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyfeiriad: Cyfoeth Naturiol Cymru

Maes Newydd

Llandarcy

Castell-nedd Port Talbot

SA10 6JQ

Rhif ffôn: 01792 325615

Cyfeiriad e-bost: david.mee@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

**Mae'r corff arolygu yn cydymffurfio ag egwyddorion safon EN 45011.**